

SAUNDERS, ERASMUS (1670 - 1724), diwinydd

Enw: Erasmus Saunders
Dyddiad geni: 1670
Dyddiad marw: 1724
Priod: Dorothy Saunders (née Lloyd)
Plentyn: Erasmus Saunders
Rhiant: Lettice Saunders (née Phillips)
Rhiant: Tobias Saunders
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diwinydd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: David Williams

Ganwyd ym mhlwyf Clydey, yng ngogledd sir Benfro, mab Tobias Saunders, Cilrhedyn, Sir Benfro, a Lettice Phillips, Penboyr, Sir Gaerfyrddin. Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 20 Mawrth 1690 (B.A. 1693, M.A. 1696, B.D. 1705, D.D. 1712). Pan oedd yn efrydydd bu'n helpu [Edward Lhuyd](#) gyda'r gwaith o gasglu manylion hynafiaethol ynglŷn â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. (Llythyrau yn *Inventory* Sir Benfro, xxxvi a xxxvii, ac *Inventory* Sir Gaerfyrddin, 266.) Yr oedd yr [esgob William Lloyd](#), un o'r saith esgob, yn noddwr iddo. Symudwyd [Lloyd](#) i fod yn esgob Caerwrangon yn 1700. O'r flwyddyn honno daliai ei fab (o'r un enw) fywoliaeth Blockley yn esgobaeth Caerwrangon, eithr rhoddodd hi i fyny yn 1705 a daeth Saunders, a fuasai'n gurad iddo er 1702, yn ficer (13 Awst). Bum mis yn ddiweddarach (18 Ionawr 1706), sefydlwyd ef hefyd yn rheithor (di-breswyl) Helmdon, sir Northampton (nid gogledd Hampshire fel y dywedir yn y *D.N.B.*) gan esgob Peterborough; daliodd y fywoliaeth hon hyd 1721; ond ni bu'n rheithor Moreton-in-the-Marsh, fel y dywed y *D.N.B.* Yn 1709 cafodd hefyd, gan yr esgob George Bull, Tyddewi, gadair prebend - y tro hwn yng Ngholeg Crist, Aberhonddu. Priododd Saunders yn 1714, yn Blockley, â Dorothy, merch Humphrey Lloyd, Aberbechan, gerllaw'r Drenewydd, Sir Drefaldwyn; bu iddynt saith o blant. Bu farw ar 1 Mehefin 1724, yn Aberbechan, o ergyd parlys, a chladdwyd ef yn S. Mary, Amwythig, ar y pumed dydd o'r mis hwnnw. Y mae ysgrif goffa faith ar ei feddrod yn yr eglwys honno; y mae hefyd yn eglwys Blockley dabled ar y mur yn dangos ei arfau ('sable, a chevron ermine between three bulls' heads, caboshed argent'), a osodwyd gan ei fab hynaf, Dr. Erasmus Saunders (canon yn Windsor, ficer St. Martin-in-the-Fields, a chanon yn Rochester, a fu farw yn 1775). Er ei fod yn 'pluralist' yr oedd Saunders yn offeiriad plwyf gweithgar. Yn 1713, gyda chymorth rhai o w'r tiriog y gymdogaeth, llwyddodd i gael adeiladu ysgol yn Blockley; arni rhoes arysgrif yn Gymraeg - 'Aros a Llwydda.' Bu'n cynorthwyo gwaith y S.P.C.K., a bu o gymorth ariannol i'r gymdeithas trwy dalu am hanner cant o gopïau o'i hargraffiad o'r *Beib*/Cymraeg ac mewn ffyrdd eraill. Cyhoeddodd amryw bregethau; cyfieithwyd un o'r rhain, ar 'Household Government,' i Gymraeg gan [Samuel Williams](#), tad [Moses Williams](#). Eithr ar gyfrif ei lyfr a elwir *A View of the State of Religion in the Diocese of S. Davids* (London, 1721; adarg. gan Wasg Prifysgol Cymru, 1949) y mae Saunders yn haeddu sylw yn bennaf. Yn y gwaith hwn deliodd mewn modd trwyadl â'r hyn a alwai ef yn 'melancholy state' yr esgobaeth; daliai ef mai'r achos pennaf o hyn oedd y ffaith bod cymaint o'r degymau yn llaw gw'r lleyg.

Awdur

Yr Athro Emeritus David Williams, (1900 - 1978)

Ffynonellau

A Chapter in English Church History; S.P.C.K. Minutes and [Abstracts of] Correspondence, 1698-1704 (London 1888)

Foster, *Alumni Oxonienses*

Archaeologia Cambrensis, 1873, 384; 1879, 72-3

West Wales Historical Records (1910-29), ii, 161-88

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [56956909](#)

Wikidata: [Q5384974](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

